CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD IAU, 8 MAI 2014 | THURSDAY, 8 MAY 2014 |
| am 10.30 o'r gloch | at 10.30 am |

**R H A G L E N**

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn:-

- 27 Chwefror, 2014
- 27 Mawrth, 2014 (Arbennig)

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

4. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

5. **SWYDDFEYDD POST CAERGYBI A LLANGEFNI**

I dderbyn cyflwyniad gan Non Tudur Williams, Uwch-Reolwr Rhanddeiliaid – Yn unol â phenderfyniad y Cyngor Sir ar 27 Chwefror, 2014, gwahoddwyd uwch gynrychiolwyr o Swyddfa'r Post i annerch y Cyngor mewn perthynas â'u cynlluniau ar gyfer rhyddfreinio'r Swyddfeydd Post Brenhinol yng Nghaergybi a Llangefni.

Neilltuir cyfnod o gwestiynau ac atebion i'r Aelodau.

6. **CYNLLUN GWELLA 2014-15 – DARPARIAETH FLYNYDDOL**

(a) Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Ebrill, 2014.

(b) Cyflwyno sylwadau'r Pwyllgor Gwaith ar y Cynllun Gwella.

**PENDERFYNWYD derbyn y Ddogfen Ddarparu Flynyddol am 2014/15 ac argymell ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod i'w gynnal ar 8 Mai, 2014.**

7. **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd. **– ADRODDIAD HWYR**

8. **CYNLLUN CYDNABYDDIAETH I AELODAU 2014-15**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd.

**9.** **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Ystyried Adroddiad Blynyddol Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â pharagraff 4.1.16 y Cyfansoddiad. **– ADRODDIAD HWYR**

**10.** **PWYLLGOR ARCHWILIO – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2013-14**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

**11.** **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2013-14**

Cyflwyno adroddiad gan Mr Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

**12.** **ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2013-14**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**13.** **ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2013-14**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**14.** **CYNLLUN DATBLYGU HYFFORDDIANT I AELODAU – DATBLYGU HYFFORDDIANT I AELODAU 2014-15**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd.

**15.** **CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Ã RHEOL 4.1.12.2 Y CYFANSODDIAD**

Cwestiwn Cynghorydd Jeff Evans:-

Hoffwn ofyn y cwestiwn isod dan reol i Cynghorydd R Dew, Aelod Portffolio Eiddo:-

*"Faint o fusnesau/sefydliadau sydd ar hyn o bryd yn cael £500 am ddarparu cyfleusterau toiled. Lle mae'r rhain a beth yw cyfanswm cost y ddarpariaeth?"*

**16.** **RHYBYDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOLAU 4.1.13.1 AC 4.1.17.1 Y CYFANSODDIAD**

Cyflwyno Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd R Meirion Jones yn unol â Rheol 4.1.13.1 ac 4.1.17.1 o'r Cyfansoddiad. Mae'r Rhybudd wedi'i arwyddo gan y Cynghorwyr Bob Parry, OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts, Carwyn Jones, Llinos Medi Huws, John W Griffith, T Lloyd Hughes, A W Mummery, Ann Griffith ac Vaughan Hughes.

- Ail-ystyried amseroedd cyfarfodydd y Cyngor Sir, Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau Craffu, Pwyllgorau Lled-farnwrol a phob Pwyllgor neu Is-Bwyllgor arall o'r Cyngor Sir a rhoi sylw anghenion cydraddoldeb, cyfartalwch ac amrywiaeth.
- Trosglwyddo ystyriaeth o amseroedd cyfarfodydd i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

I roi ystyriaeth i'r uchod.

## 17. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, i gau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth eithriedig fel â ddiffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

## 18. CAIS GAN GYNGHORYDD I YMESTYN EI GYFNOD O ABSENOLDEB SALWCH

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Monitro ar gynnwys y cais.